Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Arfarniad Llesiant Integredig Crynodeb Annhechnegol

Gorffennaf 2025








# Arfarniad Llesiant Integredig

## Crynodeb Annhechnegol

## Cynnwys


1. Crynodeb Annhechnegol 1

1.1 Pwrpas y Crynodeb Annhechnegol 1

1.2 Beth yw Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP)? 1

1.3 Beth yw'r Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)? 2

1.4 Ymgysylltu ac ymgynghori 2

1.5 Cwmpas yr IWBA 3

1.6 Amcanion IWBA 3

1.7 Sgorio'r arfarniad 7

1.8 Deilliannau'r arfarniad 7

1.9 Uchelgeisiau Llesiant Cymru 13

1.10 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Pum Ffordd o Weithio 21

1.11 Argymhellion 22

1.12 Monitro a gwerthuso 25

# 1. Crynodeb Annhechnegol

## 1.1 Pwrpas y Crynodeb Annhechnegol

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb, mewn iaith annhechnegol, o Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA) Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft Gogledd Cymru (NWRTP).

## 1.2 Beth yw Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRTP)?

Nod y NWRTP yw datrys problemau trafnidiaeth yn ardal Gogledd Cymru dros y pum mlynedd nesaf (2025 - 2030). Bydd yn llywio penderfyniadau ar ble i fuddsoddi i ymdrin â materion trafnidiaeth lleol a rhanbarthol yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn dangos sut all trafnidiaeth gefnogi'r gwaith o gyflawni Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ac annog twf ac adfywiad yn y rhanbarth.

Mae'r NWRTP yn cynnwys polisïau i gefnogi gweledigaeth ac uchelgeisiau Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'r NWRTP i helpu i sicrhau bod targedau trafnidiaeth a newid hinsawdd yn cael eu diwallu, tra hefyd yn cyfrannu at y mesurau a amlinellir yn Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Dylid darllen y NWRTP ochr yn ochr â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) sy'n amlinellu cynlluniau'r awdurdod lleol fydd yn cael eu datblygu i helpu i gyflawni'r NWRTP.

### 1.2.1 Y weledigaeth

Mae'r weledigaeth a ddatblygwyd ar gyfer y NWRTP yn datgan:

*'Bydd gan Ogledd Cymru rwydwaith trafnidiaeth integredig diogel, cynaliadwy, fforddiadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant i bawb, cynhwysiant a lles'.*

Cefnogir y weledigaeth gan bedwar amcan, a fydd yn helpu i fonitro a gwerthuso llwyddiant NWRTP:

1. Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol: Byddwn yn galluogi 30% neu fwy o bobl yng Ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030 trwy gynllunio defnydd tir yn well a gwella cysylltedd digidol, a ddylai leihau'r angen cyffredinol i deithio a galluogi teithiau byrrach sy'n fwy addas ar gyfer dulliau cynaliadwy.
2. Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth**:** Byddwn yn datblygu isadeiledd a gwasanaethau sy'n rhoi dewis i bobl sut maent yn teithio ar gyfer pob taith ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy wella mynediad i aneddleoedd allweddol, cyflogaeth, safleoedd addysgol ac atyniadau twristaidd. Dylid gwella hygyrchedd pob atyniad taith allweddol, gan gefnogi'r targed rhannu modd cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, olwyno, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040.
3. Galluogi datgarboneiddio drwy newid i fflyd dim allyriadau: Byddwn yn datblygu isadeiledd ategol a chefnogi cymhellion i alluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035.
4. Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy**:** Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth gwydn, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac effeithlon sy'n darparu twf economaidd cynaliadwy drwy wella hygyrchedd i ardaloedd cyflogaeth presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio. Bydd o leiaf 50% o aelwydydd Gogledd Cymru yn gallu teithio'n bellach o fewn un awr ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol erbyn 2030.

### 1.2.2 Polisïau trafnidiaeth

Mae'r polisïau drafft sydd wedi'u datblygu ar gyfer NWRTP yn seiliedig ar themâu polisi sy'n cynnwys:

- Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio
- Bws
- Coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol
- Cerdded, olwyno a beicio
- Integreiddio rhwng dulliau
- Porthladdoedd a chludo llwythi
- Ffyrdd, strydoedd, a pharcio
- Mynediad ar y ddaear at awyrennau
- Cysylltedd digidol
- Cynllunio defnydd tir

Mae dwy thema bolisi arall sy'n cynnwys rheilffyrdd a'r rhwydwaith ffyrdd strategol (gan gynnwys ffyrdd A). Fodd bynnag, nid oes gan Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol reolaeth uniongyrchol dros y meysydd hyn felly nid oes polisïau penodol yn y NWRTP, dim ond dyheadau.

## 1.3 Beth yw'r Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA)?

Rhaid i unrhyw bolisïau, cynlluniau a rhaglenni trafnidiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru gynnwys arfarniad llesiant integredig sy'n dangos sut y bydd yn hyrwyddo llesiant yng Nghymru, gan gyfrannu at y pedwar uchelgais llesiant a'r targedau penodol ar gyfer trafnidiaeth. Mae'r canllawiau IWBA a nodir fel rhan o Ganllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) yn nodi cyfres o bedwar cwestiwn i'w gofyn wrth ddatblygu polisïau neu brosiectau. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod ynghyd â phynciau sy'n cael eu hystyried o dan bob un o'r cwestiynau:

1. Sut bydd o fudd i **bobl** a **chymunedau**? (cydraddoldeb, iechyd, diogelwch a hyder)
2. Sut bydd o fudd i'r **amgylchedd**? (lleihau allyriadau carbon, buddiol i fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a lleihau gwastraff)
3. Sut bydd o fudd i **leoedd** a'r **economi**? (creu lleoedd, arloesi, cludo llwythi)
4. Sut bydd o fudd i **ddiwylliant** a'r **iaith Gymraeg**? (y celfyddydau a chwaraeon, yr amgylchedd hanesyddol a chyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg)

Gellir defnyddio IWBA ar gyfer asesu effeithiau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol posib cynllun, ac mae'n gosod datblygu cynaliadwy yng nghanol y broses gwneud penderfyniadau. Nid yw'n disodli'r angen am asesiadau statudol (fel y rhai sy'n ofynnol gan y gyfraith) ac felly cefnogir yr IWBA gan wahanol asesiadau effaith gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r amgylchedd, llesiant, yr iaith Gymraeg, hawliau plant, cydraddoldeb, adnoddau naturiol, iechyd, prawfesur gwledig, newid hinsawdd ac ecoleg / cynefinoedd.

## 1.4 Ymgysylltu ac ymgynghori

Mae'r NWRTP yn mabwysiadu agwedd gydweithredol a chyfranogol, gan ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae ymgysylltu â rhan-ddeiliaid wedi helpu i lunio'r NWRTP, er enghraifft mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru wedi dweud wrthym am yr hyn y maent am ei weld ar gyfer y system drafnidiaeth yng Ngogledd Cymru.


Paratowyd adroddiad cwmpasu IWBA ac fe'i cyflwynwyd i ymgyngoreion statudol (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw) am gyfnod o 5 wythnos rhwng 15 Hydref tan 19 Tachwedd 2024. Amlinellodd yr adroddiad cwmpasu ddull o ymdrin â'r asesiadau effaith fel rhan o'r IWBA, y data gwaelodlin, cynlluniau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, polisïau ac amcanion cynaliadwyedd, a'r fethodoleg asesu. Roedd hefyd yn awgrymu amcanion IWBA i osod fframwaith ar gyfer asesu (y Fframwaith IWBA).

Cyflwynwyd IWBA drafft ochr yn ochr â NWRTP drafft i'w ymgynghori am gyfnod o 12 wythnos (rhwng 20 Ionawr ac 14 Ebrill 2025).

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn ofalus a, lle bo'r angen, gwnaed newidiadau i ymdrin â'r sylwadau. Bydd y dogfennau NWRTP terfynol yn cael eu mabwysiadu a'u cyhoeddi ochr yn ochr â Datganiad Ôl-Fabwysiadu sy'n egluro sut mae'r IWBA a'r adborth wedi siapio'r dogfennau.

## 1.5 Cwmpas yr IWBA

Mae cwmpas daearyddol yr IWBA yn cyd-fynd â rhanbarth Gogledd Cymru, h.y. ardaloedd awdurdod lleol Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, a Gwynedd (gweler Ffigwr 1).




Ffigwr **1**: Awdurdodau Lleol a gynhwysir yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (gyda Pharc Cenedlaethol Eryri mewn gwyrdd)

Rhoddir ystyriaeth hefyd i ardaloedd cyfagos Cymru a Lloegr, yn enwedig Caer a Lerpwl gan fod ymfudo sylweddol y ddwy ffordd dros y ffin mewn perthynas â chyflogaeth, gwasanaethau (e.e. iechyd) ac addysg. Mae presenoldeb ardaloedd arfordirol yn ardal yr astudiaeth hefyd yn dangos fod effeithiau daearol a morol perthnasol yn bosib a bydd angen eu hystyried yn yr IWBA.

O ran amserlenni, mae'r NWRTP yn gosod y cynllun 5 mlynedd ar gyfer y rhanbarth (2025-2030) sydd yn 'fyrdymor' o safbwynt arfarniad llesiant. Mae'r arfarniad wedi nodi y byddai effeithiau sy'n deillio o bolisïau'r NWTRP yn debygol o arwain at effeithiau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r amserlen pum mlynedd hon ac sydd wedi'u nodi fel rhai 'hirdymor'.

## 1.6 Amcanion IWBA

Mae'r Fframwaith IWBA yn cynnwys cyfres o amcanion sydd wedi'u datblygu i asesu cynaliadwyedd y polisïau (neu grŵp o bolisïau) a amlinellir yn y NWRTP drafft. Mae'r rhain yn ategu pedwar amcan NWRTP ac mae'n ofynnol i amcanion IWBA ddarparu modd y gellir asesu perfformiad amgylcheddol y cynllun.

Nodwyd amcanion yr IWBA, a restrir yn Nhabl 1 ochr yn ochr â'r cwestiynau gwerthuso, i ddechrau ar y cam cwmpasu ac maent wedi'u creu i ystyried y canlynol: Tabl 1

- **Cyd-destun NWRTP**: mae themâu allweddol o adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni ac Amcanion [cynaliadwyedd] (PPO) (Adroddiad IWBA, Adran 3.2) a'r materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd

allweddol o'r adolygiad data gwaelodlin (Adroddiad IWBA, Adran 4.2), wedi'u defnyddio i ddatblygu amcanion arfarniad sy'n benodol i'r NWRTP.

- **Nodau Llesiant**: Mae uchelgeisiau llesiant Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) wedi'u cysylltu'n glos â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio lles hirdymor, diogelu'r amgylchedd, a chynnydd cymdeithasol.
- **Asesiadau statudol** - mae amcanion yr arfarniad wedi'u datblygu i gwmpasu gofynion yr asesiadau statudol a amlinellwyd yn Adran 1.3 uchod a'u rheoliadau perthnasol. 1.3

I grynhoi, mae Fframwaith IWBA yn darparu dull strwythuredig i sicrhau bod NWRTP yn cyd-fynd â nodau llesiant ehangach ac yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yng Ngogledd Cymru.

Mae pob un o'r cwestiynau a amlinellwyd yn Adran 1.3 wedi cael eu hateb gan ystyried amcanion yr IWBA i ystyried ystod eang o effeithiau posibl polisïau NWRTP.
Mae Tabl 1 yn nodi pa amcan IWBA sy'n berthnasol i bob un o'r pynciau IWBA a gafodd eu cwmpasu yn yr arfarniad, yn ogystal â pha uchelgais Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) maent yn anelu i fynd i'r afael ag ef.

Tabl 1 - Amcanion yr IWBA, cwestiynau'r arfarniad a sut maent yn cyd-fynd â phob pwnc a thema gyffredinol yr IWBA

| Amcanion IWBA | Sut y byddwn yn profi p'un a yw'r amcan wedi'i ddiwallu? A fydd y NWRTP yn..... | Pwnc IWBA Perthnasol | Cyd-fynd ag uchelgais WTS |
|---|---|---|---|
| 1. Cefnogi'r gwaith o ddarparu tai a gwasanaethau lleol i ddiwallu anghenion cymunedau lleol | • Cefnogi creu cymunedau sy'n cynnig opsiynau trafnidiaeth hyfyw a chynaliadwy mewn a rhwng lleoliadau?<br>• Gwella mynediad at wasanaethau lleol? | Poblogaeth<br>Iechyd pobl<br>Seilwaith<br>Economi | Pobl a Chymunedau |
| 2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant cymunedol | • Gwella amodau amgylcheddol ac ansawdd bywyd i'r cymunedau mwyaf difreintiedig?<br>• Cefnogi anghenion aelodau'r gymdeithas sydd â nodweddion gwarchodedig?<br>• Gwella hygyrchedd cludiant cyhoeddus a theithio llesol i bob aelod o'r gymuned?<br>• Ymgysylltu â rhan-ddeiliaid, partneriaid a chymunedau lleol?<br>• Creu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol?<br>• Cefnogi anghenion cludiant plant? | Poblogaeth<br>Iechyd pobl<br>Treftadaeth ddiwylliannol<br>Cludiant<br>Economi | Pobl a chymunedau |

| Amcanion IWBA | Sut y byddwn yn profi p'un a yw'r amcan wedi'i ddiwallu? A fydd y NWRTP yn..... | Pwnc IWBA Perthnasol | Cyd-fynd ag uchelgais WTS |
|---|---|---|---|
| 3. Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth leol, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol | • Annog y defnydd o deithio llesol?<br>• Gwella cysylltedd rhwng cymunedau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd lleol?<br>• Lleihau ynysu cymdeithasol?<br>• Lleihau difrod ffisegol a gwella diogelwch gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth?<br>• Gwella mynediad at wasanaethau iechyd allweddol?<br>• Gwella mynediad at wasanaethau hamdden?<br>• Mynediad cyhoeddus at ofodau gwyrdd? | Poblogaeth<br>Iechyd pobl<br>Defnydd tir a thirwedd<br>Ansawdd aer<br>Sŵn<br>Economi | Pobl a chymunedau |
| 4. Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig. | • Achosi niwed neu unrhyw ddirywiad yng nghyflwr unrhyw safleoedd dynodedig?<br>• Arwain at golli cynefinoedd gwerthfawr?<br>• Cyflawni cyfleoedd i adfer neu greu cynefinoedd lled-naturiol?<br>• Cyflawni budd net i fioamrywiaeth a chyfrannu at wytnwch ecosystemau? | Bioamrywiaeth<br>Amodau'r ddaear<br>Yr amgylchedd dŵr | Yr Amgylchedd |
| 5. Gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd, dynodiadau a mwynderau gweledol yn yr ardal leol | • Achosi niwed i unrhyw dirweddau dynodedig neu warchodedig?<br>• Arwain at wella amodau a chymeriad unrhyw dirweddau gwarchodedig neu ddynodedig?<br>• Lleihau effeithiau andwyol traffig y ffordd a pharcio ar dirweddau a dynodiadau?<br>• O ganlyniad, collir darn o'r tir Gorau a Mwyaf Aml-bwrpas (BMV)?<br>• Cyfrannu at reoli teithio mewn ardaloedd twristiaeth yn effeithlon yn ystod cyfnodau prysur? | Defnydd tir a thirwedd<br>Treftadaeth ddiwylliannol<br>Economi | Lleoedd a'r economi |
| 6. Gwarchod a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg | • Achosi niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol i asedau treftadaeth dynodedig?<br>• Gwella cyflwr neu leoliad asedau treftadaeth dynodedig?<br>• Darparu mesurau i osgoi a/neu liniaru niwed i asedau treftadaeth heb eu dynodi?<br>• Cefnogi cymunedau Cymraeg?<br>• Cynnwys mentrau i weithredu ac annog defnydd o'r Gymraeg? | Poblogaeth<br>Treftadaeth ddiwylliannol | Diwylliant a'r Iaith Gymraeg |

| Amcanion IWBA | Sut y byddwn yn profi p'un a yw'r amcan wedi'i ddiwallu? A fydd y NWRTP yn..... | Pwnc IWBA Perthnasol | Cyd-fynd ag uchelgais WTS |
|---|---|---|---|
| 7. Gwarchod a gwella iechyd dŵr daear, cyrff dŵr wyneb ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. | • Cael effaith negyddol ar adnoddau dŵr a ddefnyddir ar gyfer echdynnu dŵr?<br>• Cael effaith negyddol ar ansawdd adnoddau dŵr?<br>• Cael effaith negyddol ar iechyd cyffredinol cyrff dŵr?<br>• Helpu i gyflawni mesurau corff dŵr WFD a chefnogi cyrff dŵr WFD i gyflawni statws ecolegol 'da'? | Amodau'r ddaear<br><br>Yr amgylchedd dŵr | Yr Amgylchedd |
| 8. Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (gan gynnwys dim allyriadau) a gwella gwytnwch y seilwaith trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd. | • Helpu i gyrraedd targedau Cymru i fod yn 'sero net' erbyn 2050?<br>• Cynyddu symudiad moddol o geir preifat i gludiant cyhoeddus a theithio llesol.<br>• Cynnwys cyfleoedd i gefnogi datgarboneiddio'r adran drafnidiaeth?<br>• Cefnogi defnydd o danwydd glanach ar gyfer trafnidiaeth, gan gynnwys cerbydau trydan?<br>• Cynnwys mesurau i gynyddu gwytnwch seilwaith presennol a newydd i effeithiau newid hinsawdd?<br>• Lleihau effaith digwyddiadau tywydd eithafol ar y rhwydwaith trafnidiaeth?<br>• Lleihau'r angen i deithio i gael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau allweddol? | Ffactorau hinsawdd<br><br>Cludiant | Yr Amgylchedd |
| 9. Gwarchod a gwella ansawdd aer lleol. | • Gwella ansawdd aer i gymunedau?<br>• Achosi dirywiad mewn ansawdd aer?<br>• Cynnwys mentrau i annog pobl i fanteisio ar deithio llesol a chludiant cyhoeddus? | Iechyd pobl<br><br>Ansawdd aer | Yr Amgylchedd |
| 10. Lleihau aflonyddwch o sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a dirgryniad i gymunedau lleol. | • Gwella'r seinluniau lleol?<br>• Arwain at ostyngiad mewn llygredd sŵn?<br>• Cynnwys mentrau i annog pobl i fanteisio ar deithio llesol a chludiant cyhoeddus? | Iechyd pobl<br><br>Sŵn | Pobl a chymunedau |
| 11. Ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai. | • Defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy a sicrhau bod deunyddiau ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon?<br>• Cynnwys mentrau trafnidiaeth a seilwaith sy'n golygu bod modd casglu ailgylchu a gwastraff, ei gludo, ei ddidoli a'i reoli'n effeithiol?<br>• Cefnogi trosglwyddo'r fflyd casglu gwastraff i danwydd glanach, megis defnyddio EV?<br>• Annog y defnydd o ddeunyddiau lleol? | Adnoddau a gwastraff<br><br>Economi | Yr Amgylchedd |

| Amcanion IWBA | Sut y byddwn yn profi p'un a yw'r amcan wedi'i ddiwallu? A fydd y NWRTP yn..... | Pwnc IWBA Perthnasol | Cyd-fynd ag uchelgais WTS |
|---|---|---|---|
| 12. Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symudiad effeithlon a diogel pobl a chludo nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth. | • Cynyddu'r tir sydd ar gael ar gyfer datblygu cyflogaeth?<br>• Cefnogi mynediad teg i gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant?<br>• Gwella dibyniaeth a gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth i gefnogi busnesau a gweithwyr yn well?<br>• Annog adfywiad a buddsoddiad, yn enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig?<br>• Gwella mynediad rhwng Lloegr a Gogledd Cymru a gwella mynediad rhwng Gogledd a De Cymru?<br>• Annog mynediad cynaliadwy i gyfleusterau ac atyniadau i dwristiaid?<br>• Cefnogi'r economi wledig?<br>• Gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal? | Poblogaeth<br>Economi<br>Cludiant | Lleoedd a'r economi |

## 1.7 Sgorio'r arfarniad

Bydd opsiynau NWRTP yn cael eu hasesu yn erbyn amcanion IWBA gan ddefnyddio'r cwestiynau cyfatebol a nodwyd yn Nhabl 2.

Mae sgôr wedi'i neilltuo i bob amcan gan ddefnyddio'r meini prawf a amlinellir yn Nhabl 2 yn dibynnu ar y math a'r lefel o effaith y mae'r polisi NWRTP, neu grŵp o bolisïau, yn debygol o gael ar yr amcan. Mae arfarniad ansoddol (an-rhifol) yn cyd-fynd â hyn sy'n disgrifio'r effeithiau tebygol a nodwyd, gan ddarparu cyfeiriadau lle bo hynny'n briodol.

Tabl 2: Meini Prawf Sgorio IWBA2

| Sgôr IWBA | Diffiniad |
|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol sylweddol debygol |
| + | Effaith gadarnhaol bosibl fychan |
| 0 | Effaith ddibwys debygol |
| - | Effaith negyddol fechan debygol |
| -- | Effaith negyddol sylweddol debygol |
| ? | Effaith debygol yn ansicr |
| +/- | Yn debygol o fod yn gymysgedd o effeithiau cadarnhaol a negyddol |

## 1.8 Deilliannau'r arfarniad

Mae'r Adroddiad IWBA a'i atodiadau yn cyflwyno'r canlyniadau asesu llawn a manwl ar gyfer y NWRTP. Cyflwynir crynodeb o sgoriau asesu'r IWBA yn Nhabl 3 ac yna naratif asesu mewn ymateb i bedair uchelgais WTS yn Adran 1.9.

Tabl 3 - Sgoriau IWBA ar gyfer pob polisi/grŵp polisi yn erbyn pob Amcan IWBA

| Amcanion IWBA | 1. Cyflawniad tai a gwasanaethau lleol | 2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant | 3. Iechyd a Llesiant | 4. Bioamrywiaeth | 5. Ardaloedd cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig | 6. Diwylliant a'r iaith Gymraeg | 7. Iechyd dŵr | 8. Datgarboneiddio | 9. Ansawdd aer | 10. Sŵn a seinluniau lleol | 11. Economi gylchol a llai o ddefnydd ar ddeunydd crai | 12. Ffyniant economaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchelgais WTS / Grŵp polisi | Pobl a chymunedau | Pobl a chymunedau | Pobl a chymunedau | Yr Amgylchedd | Lleoedd a'r Economi | Diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yr Amgylchedd | Yr Amgylchedd | Yr Amgylchedd | Pobl a chymunedau | Yr Amgylchedd | Lleoedd a'r Economi |
| **Galluogi newidiadau i ymddygiad teithio** | | | | | | | | | | | | |
| **Polisi CB1 – CB7**: Rhoi dewis i bobl ynghylch sut maent yn cymudo | ++ | ? | ++ | ? | +/- | + | + | + | + | + | + | ++ |
| **Polisi CB8 – CB12:** Rhoi dewisiadau i bobl ynghylch sut maent yn cael mynediad at wasanaethau ac addysg | ++ | ++ | ++ | ? | 0 | + | + | ++ | + | + | + | + |
| **Polisi CB13:** Rhoi dewisiadau i bobl mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig | + | ++ | ++ | + | 0 | + | + | + | + | + | + | + |
| **Polisi CB14 - CB23:** Rhoi gwybodaeth i bobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy a chefnogi'r sector twristiaeth | 0 | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| **Bws, coets a chludiant cymunedol** | | | | | | | | | | | | |
| **Polisi PT1:** Masnachfreinio Bysiau | + | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ |

| Amcanion IWBA / Uchelgais WTS / Grŵp polisi | 1. Cyflawniad tai a gwasanaethau lleol | 2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant | 3. Iechyd a Llesiant | 4. Bioamrywiaeth | 5. Ardaloedd cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig | 6. Diwylliant a'r iaith Gymraeg | 7. Iechyd dŵr | 8. Datgarboneiddio | 9. Ansawdd aer | 10. Sŵn a seinluniau lleol | 11. Economi gylchol a llai o ddefnydd ar ddeunydd crai | 12. Ffyniant economaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pobl a chymunedau | Pobl a chymunedau | Pobl a chymunedau | Yr Amgylchedd | Lleoedd a'r Economi | Diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yr Amgylchedd | Yr Amgylchedd | Yr Amgylchedd | Pobl a chymunedau | Yr Amgylchedd | Lleoedd a'r Economi |
| **Polisi PT2 - PT3:** Datgarboneiddio'r fflyd bysiau | 0 | + | + | + | 0 | 0 | +/- | ++ | + | 0 | + | 0 |
| **Polisi PT4 – PT5:** Rhwydwaith Trawsnewid Bysiau | + | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ |
| **Polisi PT6 – PT8:** Gwella'r seilwaith bysiau | + | ++ | + | + | + | + | +/- | + | + | + | + | + |
| **Polisi PT9 – PT10:** Gwneud teithio ar fws yn haws | + | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| **Coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol** | | | | | | | | | | | | |
| **Polisi PT11 – PT12:** Gwasanaethau Fflecsi a Galw a Theithio | ++ | ++ | + | + | 0 | + | + | ? | ? | + | + | + |
| **Polisi PT13:** Tacsi | + | + | + | + | 0 | + | 0 | + | + | 0 | + | + |
| **Polisi PT14:** Gwasanaethau coets sy'n teithio ymhellach | 0 | + | + | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | + |

| Amcanion IWBA | 1. Cyflawniad tai a gwasanaethau lleol | 2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant | 3. Iechyd a Llesiant | 4. Bioamrywiaeth | 5. Ardaloedd cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig | 6. Diwylliant a'r iaith Gymraeg | 7. Iechyd dŵr | 8. Datgarboneiddio | 9. Ansawdd aer | 10. Sŵn a seinluniau lleol | 11. Economi gylchol a llai o ddefnydd ar ddeunydd crai | 12. Ffyniant economaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchelgais WTS / Grŵp polisi | Pobl a chymunedau | Pobl a chymunedau | Pobl a chymunedau | Yr Amgylchedd | Lleoedd a'r Economi | Diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yr Amgylchedd | Yr Amgylchedd | Yr Amgylchedd | Pobl a chymunedau | Yr Amgylchedd | Lleoedd a'r Economi |
| **Polisi PT15:** Ymglymiad cymunedol mewn rheilffyrdd | + | + | + | + | 0 | + | 0 | + | + | 0 | + | + |
| **Cerdded, Olwyno a Beicio** | | | | | | | | | | | | |
| **Polisi AT1 – AT2:** Mynd ati ymhellach i wella'r seilwaith | + | ++ | ++ | +/- | 0 | + | + | ++ | + | + | + | + |
| **Polisi AT4 – AT6:** Gwneud teithio llesol yn fwy deniadol | + | ++ | ++ | +/- | 0 | + | + | ++ | + | + | ? | + |
| **Polisi AT7 – AT11:** Arweinyddiaeth a chyllid | + | + | + | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | + |
| **Polisi AT12 – AT14:** Llogi beiciau, e-feiciau ac e-sgwteri | + | ++ | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| **Integreiddio rhwng dulliau** | | | | | | | | | | | | |
| **Polisi IN1 – IN3:** Canolfannau symudedd a gorsafoedd porth | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| **Polisi IN4:** Integreiddio | + | ++ | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ |

| Amcanion IWBA | 1. Cyflawniad tai a gwasanaethau lleol | 2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant | 3. Iechyd a Llesiant | 4. Bioamrywiaeth | 5. Ardaloedd cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig | 6. Diwylliant a'r iaith Gymraeg | 7. Iechyd dŵr | 8. Datgarboneiddio | 9. Ansawdd aer | 10. Sŵn a seinluniau lleol | 11. Economi gylchol a llai o ddefnydd ar ddeunydd crai | 12. Ffyniant economaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchelgais WTS / Grŵp polisi | Pobl a chymunedau | Pobl a chymunedau | Pobl a chymunedau | Yr Amgylchedd | Lleoedd a'r Economi | Diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yr Amgylchedd | Yr Amgylchedd | Yr Amgylchedd | Pobl a chymunedau | Yr Amgylchedd | Lleoedd a'r Economi |
| **Polisi IN5 – IN6:** Cynlluniau Parcio a Theithio neu Barcio a Rhannu | + | +/- | 0 | +/- | + | + | + | + | 0 | 0 | + | +/- |
| **Porthladdoedd a Chludo Llwythi** | | | | | | | | | | | | |
| **Polisi PF1 – PF2:** Porthladdoedd | + | + | +/- | -- | + | + | ? | +/- | +/- | +/- | - | ++ |
| **Polisi PF3:** Cludo llwythi ar y ffyrdd | + | + | + | ? | ? | + | - | ? | +/- | + | 0 | 0 |
| **Polisi PF4:** HGVs Allyriadau Isel | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | +/- | ++ | + | 0 | + | + |
| **Polisi PF5 – PF8:** Danfoniadau lleol | + | + | +/- | ? | ? | ? | +/- | + | + | + | + | + |
| **Polisi PF9:** Cludo llwythi ar y rheilffordd | 0 | +/- | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + |
| **Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio** | | | | | | | | | | | | |
| **Polisi RS1 – RS2:** Cynnal a chadw | + | + | + | + | + | + | 0 | + | 0 | + | 0 | + |
| **Polisi RS3 – RS4:** Diogelwch Ffyrdd | ++ | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + |

| Amcanion IWBA | 1. Cyflawniad tai a gwasanaethau lleol | 2. Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant | 3. Iechyd a Llesiant | 4. Bioamrywiaeth | 5. Ardaloedd cymeriad y dirwedd a safleoedd dynodedig | 6. Diwylliant a'r iaith Gymraeg | 7. Iechyd dŵr | 8. Datgarboneiddio | 9. Ansawdd aer | 10. Sŵn a seinluniau lleol | 11. Economi gylchol a llai o ddefnydd ar ddeunydd crai | 12. Ffyniant economaidd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchelgais WTS / Grŵp polisi | Pobl a chymunedau | Pobl a chymunedau | Pobl a chymunedau | Yr Amgylchedd | Lleoedd a'r Economi | Diwylliant a'r iaith Gymraeg | Yr Amgylchedd | Yr Amgylchedd | Yr Amgylchedd | Pobl a chymunedau | Yr Amgylchedd | Lleoedd a'r Economi |
| **Polisi RS5 – RS6:** Parcio cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd | +/- | +/- | +/- | + | + | 0 | + | + | + | + | + | + |
| **Polisi RS7 – RS11:** Cerbydau allyriadau isel | + | + | + | + | 0 | 0 | + | + | + | 0 | + | + |
| **Polisi RS12 – RS13:** Clybiau ceir / rhannu ceir | + | ++ | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | 0 | + | + |
| **Mynediad ar y ddaear at awyrennau** | | | | | | | | | | | | |
| **Polisi AV1:** Mynediad ar y ddaear at awyrennau | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -- | + | 0 | + | + |
| **Cysylltedd Digidol** | | | | | | | | | | | | |
| **Polisi DC1:** Cysylltedd digidol | + | + | + | + | 0 | + | + | ++ | + | + | + | + |
| **Cynllunio defnydd tir** | | | | | | | | | | | | |
| **Polisi CB19 – LU6** | Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd hefyd yn gyfrifol am Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru. Fodd bynnag, gan y bydd yn gofyn am amryw o asesiadau statudol ei hun, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn yr IWBA hwn. | | | | | | | | | | | |

## 1.9 Uchelgeisiau Llesiant Cymru

Mae'r uchelgeisiau llesiant a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn cyfrannu at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae pob un o'r amcanion yn yr arfarniad yn cyfrannu at y pedwar uchelgais llesiant. Mae'r rhain yn cael eu hystyried mewn mwy o fanylder yn yr adran hon. Mae arfarniadau llawn a chyfeiriadau cysylltiedig wedi'u cynnwys yn yr adroddiad IWBA a'r atodiadau cysylltiedig.

### 1.9.1 Sut bydd y NWRTP o fudd i bobl a chymunedau?

Mae Amcanion IWBA 1, 2, 3 a 10 yn asesu effeithiau'r NWRTP ar gydraddoldeb, iechyd a diogelwch, ac yn darparu'n uniongyrchol i lesiant pobl a chymunedau. Mae'r polisïau'n chwarae rhan allweddol wrth greu system drafnidiaeth sy'n hyrwyddo gwell deilliannau iechyd ac yn meithrin mwy o gydraddoldeb ledled Cymru, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Cludiant Cyhoeddus Hygyrch a Chynhwysol Llywodraeth Cymru[1], y blaenoriaethau a nodir yn fframwaith Gweithredu ar Anabledd[2] a strategaethau Cysylltu Cymunedau[3] a Chymru Oed Gyfeillgar[4] .

#### Amcan 1 - Cefnogi cyflawniad tai a gwasanaethau lleol i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol

Mae'r arfarniad yn nodi y byddai polisïau (AT1-AT14) yn hyrwyddo isadeiledd teithio llesol, gan annog ffyrdd iachach o fyw drwy ei wneud yn haws cerdded a beicio i wasanaethau hanfodol megis gofal iechyd ac addysg. Mae mwy o weithgarwch corfforol drwy deithio llesol hefyd yn helpu i leihau cyfraddau gordewdra a thros 20 o gyflyrau cronig fel clefyd coronaidd y galon, strôc, clefyd siwgr math 2 mewn cymunedau lleol, gan helpu i fodloni ymrwymiadau yn unol â Strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach'[5].

Mae gwell systemau cyflenwi lleol a llai o dagfeydd (PF1-PF9) o fudd i'r amgylchedd a mwynderau lleol, ac yn cyfrannu at well iechyd y cyhoedd o ganlyniad i well ansawdd aer, llai o sŵn a llai o orbryder a achosir gan ffyrdd prysur.

Byddai gwelliannau (PT1-PT15) yn cyfrannu at fynediad mwy dibynadwy at wasanaethau hanfodol, ac o fudd yn benodol i ardaloedd difreintiedig a chymunedau gwledig. Mae gwell tocynnau, amseroedd teithio a dibynadwyedd gwasanaeth yn gwneud cludiant cyhoeddus yn fwy hygyrch. Byddai datrysiadau hyblyg a arweinir gan y gymuned yn cael eu dylunio i ddiwallu anghenion lleol penodol, gan feithrin cynhwysiad a chydlyniant cymdeithasol.

Mae polisïau (DC1-DC2) yn annog gweithio o bell a mynediad at wasanaethau, gan gynyddu cyfleoedd cyflogaeth, (yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n llai abl i deithio i'r gwaith (e.e. pobl anabl, gofalwyr, a phobl heb fynediad at drafnidiaeth breifat) a llythrennedd digidol, sy'n helpu mwy o bobl i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn hyderus.

---

[1] Llywodraeth Cymru, Datganiad Polisi: Amcanion Cludiant Cyhoeddus Hygyrch a Chynhwysol, Rhagfyr 2017. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2017-12/policy-statement-accessible-and-inclusive-public-transport-objectives.pdf [Cyrchwyd 02/12/2024]

[2] Llywodraeth Cymru, Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol, 2019. Ar gael ar-lein yn: action-on-disability-the-right-to-independent-living-framework-and-action-plan.pdf [Cyrchwyd 02/12/2024]

[3] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Cysylltu Cymunedau, 2020. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/connected-communities-strategy-document.pdf [Cyrchwyd 02/12/2024]

[4] Llywodraeth Cymru, Cymru Oed Gyfeillgar: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio, 2021. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/age-friendly-wales-our-strategy-ageing-society-html [Cyrchwyd 02/12/2024]

[5] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Pwysau Iach, 2019. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/healthy-weight-healthy-wales_0.pdf [Cyrchwyd 02/12/2024]

Mae gwelliannau i'r seilwaith ffyrdd (RS1-RS13) yn gwneud ffyrdd yn wydn o ran yr hinsawdd ac yn fwy diogel, gan leihau'r risg o ddamweiniau a chostau cysylltiedig. Nod annog opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy trwy daliadau parcio rheoledig ac ail-ddynodi lle o barcio (RS5-RS6) yw lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat, a allai leihau cyfraddau damweiniau.

Yn gyffredinol, nod y polisïau hyn yw creu system drafnidiaeth mwy cynhwysol, iach a diogel drwy wella cludiant cyhoeddus, llwybrau teithio llesol a seilwaith ffyrdd, gan ymdrin ag anghenion penodol cymunedau lleol ar yr un pryd.

### Amcan 2 - Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant cymunedol

Canfu'r arfarniad y byddai gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn creu system drafnidiaeth sy'n hyrwyddo iechyd, cydraddoldeb a diogelwch. Mae'r polisïau hyn yn canolbwyntio ar wella mynediad at wasanaethau hanfodol, cyflogaeth, addysg a chyfleoedd hamdden, sy'n benodol o fudd i bobl dan anfantais economaidd-gymdeithasol, unigolion iau a hŷn, pobl anabl, a'r rhai o grwpiau mwyafrif ethnig byd-eang. Trwy feithrin rhwydwaith trafnidiaeth integredig ac annog dulliau teithio llesol fel cerdded, olwyno a beicio, mae'r polisïau hyn yn gwella rhyngweithio cymdeithasol, yn lleihau unigedd, ac yn gwella lles cymunedol.

Mae'r polisïau'n blaenoriaethu cysylltu ardaloedd gwledig â gwasanaethau hanfodol, a thrwy hynny leihau anghydraddoldeb cyfleoedd i gymunedau gwledig. Mae datrysiadau trafnidiaeth hyblyg, a arweinir gan y gymuned a hyrwyddo gwasanaethau tacsis diogel yn cefnogi poblogaethau bregus ymhellach megis pobl hŷn, plant a phobl anabl. Maent hefyd o fudd i'r grwpiau hynny sydd â risg uwch o droseddau casineb megis merched, grwpiau sy'n dioddef hiliaeth a phobl o'r gymuned LHDTC+ ac sy'n fwy tebygol o ddefnyddio tacsis gan eu bod yn cael eu hystyried yn fwy diogel na chludiant cyhoeddus safonol.

Byddai gwelliannau mewn seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth aml-foddol yn gwneud cerdded, olwyno, beicio a chludiant cyhoeddus yn fwy hygyrch i bawb, gan leihau anghydraddoldeb trafnidiaeth. At hynny, byddai polisïau sy'n hyrwyddo datblygiad porthladdoedd ac yn gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus i'r porthladdoedd hyn yn hybu ffyniant economaidd i gymunedau arfordirol yng Ngogledd Cymru, sy'n wynebu lefelau uwch o amddifadedd o'i gymharu â rhannau eraill o'r rhanbarth. Byddai hyrwyddo cerbydau allyriadau isel yn cynnig buddion iechyd, yn enwedig i grwpiau bregus sy'n sensitif i lygredd aer (e.e. plant, merched beichiog, pobl hŷn, pobl â chlefyd anadlol).

At ei gilydd, byddai polisïau NWRTP yn cyfrannu at wella cysylltiadau cymunedol, hyrwyddo datblygiad economaidd a gwella cyfle cyfartal i gymunedau ledled Gogledd Cymru.

### Amcan 3 - Gwella iechyd a lles y boblogaeth leol, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol

Mae'r arfarniad yn tynnu sylw at y ffaith bod y polisïau'n anelu at ddatblygu system drafnidiaeth sy'n gwella iechyd a diogelwch drwy wella cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol. Mae hyn yn annog gweithgarwch corfforol a thrwy hynny'n lleihau'r risg o ordewdra a chlefydau cronig eraill. Mae'r polisïau'n canolbwyntio ar greu trafnidiaeth gynaliadwy, hygyrch sy'n lleihau unigedd cymdeithasol ac yn gwella cysylltedd â gofal iechyd, hamdden a chyfleusterau cymunedol. Byddai'r gwelliannau hyn yn arwain at fuddion iechyd i bawb ond byddent o fudd arbennig i grwpiau mwy bregus sy'n dibynnu mwy ar gludiant cyhoeddus, megis pobl hŷn, pobl anabl a phobl sy'n profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

Byddai gwelliannau i'r rhwydwaith bysiau a thrafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw mewn ardaloedd gwledig hefyd yn darparu opsiynau trafnidiaeth mwy cynaliadwy ac yn gwella mynediad i'r rhai heb gerbyd preifat yn yr ardaloedd hyn at wasanaethau hanfodol. Byddai hyn yn gwella cysylltedd cymdeithasol ac yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol, gan arwain at well deilliannau iechyd corfforol a meddyliol.

Mae rhwydweithiau trafnidiaeth integredig yn symleiddio'r trosglwyddo rhwng dulliau, gan annog pobl i fanteisio ar gludiant cyhoeddus gyda systemau tocynnau gwell a'i wneud yn haws i'w ddefnyddio tra hefyd yn lleihau costau i deithwyr. Byddai hyn yn helpu pobl sy'n deithwyr mwy nerfus, neu'r rhai sy'n gweld systemau presennol yn rhy gymhleth a ddim yn hawdd eu defnyddio. Byddai'r gwelliannau mewn fforddiadwyedd hefyd o fudd anghymesur i bobl sy'n profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol, a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig, gan leihau unigedd cymdeithasol a chynyddu mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant sy'n benderfynyddion cryf ar iechyd corfforol a meddyliol.

Mae polisïau datblygu porthladdoedd yn debygol o arwain at ddeilliannau iechyd cymysg, gan gydbwyso opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy, a gwell cysylltedd i gyflogaeth, gyda phroblemau ansawdd aer posib o ganlyniad i fwy o HGVs yn yr ardal. Mae polisïau ffyrdd a strydoedd yn gwella diogelwch ac yn cefnogi mentrau cludiant cyhoeddus, tra bod polisïau cysylltedd digidol yn lleihau anghenion teithio, lleddfu straen a gwella mynediad i gyflogaeth, yn enwedig i bobl â chyfrifoldebau gofalu (fel rhieni plant ifanc) neu bobl ag anableddau.

#### Amcan 10 - Lleihau aflonyddwch o sŵn sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a dirgryniad i gymunedau lleol.

Nod polisïau NWRTP yw gwella opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy a gwella hygyrchedd a chysylltedd, gan arwain at newid o ddefnyddio'r car preifat i deithio llesol a chludiant cyhoeddus. Disgwylir i'r newid hwn leihau traffig ac yna leihau lefelau sŵn a dirgryniad, gan fod o fudd i barthau blaenoriaethu sŵn ac ardaloedd preswyl (yn enwedig ardaloedd preswyl ar hyd rhannau o'r A55, A47, A4087, A547, A5119, A494, A550, A483 a'r A5152).

Gallai gwelliannau i gyfleusterau porthladd a chynnydd dilynol mewn symudiadau cludo llwythi gynyddu sŵn yn lleol, er y gallai dewis safleoedd yn ofalus liniaru hyn. Mae polisïau sydd â'r nod o wella cyfleusterau i HGVs (a'u gyrwyr) yn cynnwys datblygu canolfannau cyfuno cludo llwythi ac ardaloedd parcio/gwasanaethau penodol ar gyfer HGVs sydd oddi wrth canol trefi ac ardaloedd preswyl. Byddai hyn, yn ogystal ag annog mwy o gludo llwythi ar y rheilffyrdd, yn lleihau traffig HGV mewn canol trefi a fyddai, ynghyd â defnydd cynyddol o Gerbydau Trydan, yn lleihau aflonyddwch sŵn ymhellach. Byddai polisïau cynnal a chadw a diogelwch ffyrdd yn lleihau sŵn sy'n gallu bod yn broblem ar hyd ffyrdd sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n wael. Yn ogystal, bydd mentrau cysylltedd digidol yn lleihau'r angen i deithio, yn enwedig ar gyfer gwaith, ac yn gwella mynediad i wybodaeth cludiant cyhoeddus. Mae hyn yn hyrwyddo teithio cynaliadwy ac yn lleihau'r defnydd o gerbyd preifat, gan gyfrannu at system drafnidiaeth ddistawach, iachach a mwy diogel.

### 1.9.2 Sut y bydd y NWRTP o fudd i'r Amgylchedd?

Mae Amcanion 4, 7, 8, 9 ac 11 IWBA yn asesu effeithiau'r NWRTP ar yr amgylchedd, gan ymgorffori agweddau sy'n ymwneud â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth, sydd o fudd i fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a lleihau gwastraff. Nod y polisïau yw cynyddu'r defnydd o deithio llesol a chludiant cyhoeddus, a/neu gynyddu'r defnydd o gerbydau allyriadau isel; byddai hyn yn arwain at leihad mewn allyriadau a llygredd oddi ar y ffyrdd, dau beth sy'n gallu effeithio'n andwyol ar rywogaethau a chynefinoedd. Mae'r polisïau yn cynnwys mentrau datgarboneiddio sy'n

lleihau'r defnydd o ddeunyddiau crai (h.y. tanwydd), sy'n arwain at well ansawdd aer a gwytnwch hinsawdd, gan gyfrannu at dargedau Newid Hinsawdd Cymru a chyllidebau carbon.[6]

### Amcan 4 - Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig

Nod polisïau NWRTP yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynnal bioamrywiaeth a gwella gwytnwch ecosystemau drwy hyrwyddo teithio llesol, cludiant cyhoeddus a cherbydau allyriadau isel.

Mae'r polisïau hyn yn annog symud oddi wrth y defnydd o gar preifat, gan leihau'r allyriadau traffig a llygredd a achosir gan yr hyn sydd ar y ffordd, ac felly lliniaru effeithiau andwyol ansawdd aer a dŵr gwael ar rywogaethau a chynefinoedd. Byddai gwell opsiynau teithio cynaliadwy i ardaloedd ac atyniadau twristaidd o gymorth i atal y niwed ecolegol allai ddeillio o barcio amhriodol, sy'n broblem benodol ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Fodd bynnag, mae'n bosib y gallai hefyd gynyddu pwysau ymwelwyr i'r ardaloedd hyn gan arwain at niwed i gynefinoedd ecolegol.

Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a fydd gwelliannau isadeiledd trafnidiaeth angen tir ychwanegol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r polisïau seilwaith porthladd a chludo llwythi, oherwydd gallai datblygiad fygwth bioamrywiaeth ar safleoedd gwarchodedig megis Ardal Gwarchodaeth Arbennig Morwenoliaid Ynys Môn ac Ardal Cadwraeth Arbennig Gogledd Môn Forol. Gallai gweithgareddau datblygu yn yr ardaloedd hyn gynyddu'r pwysau ar y cynefinoedd sensitif hyn. Felly, byddai cynllunio gofalus ar lefel prosiect yn hanfodol er mwyn osgoi effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth a daearamrywiaeth o aflonyddwch ffisegol pan fydd/os bydd angen tir.

Byddai polisïau sy'n ceisio gwella creu lleoedd mewn canolfannau trefol trwy ddisodli mannau parcio gyda gwelliannau ecolegol yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at fudd net ar gyfer bioamrywiaeth, cyn belled eu bod wedi'u dylunio'n sensitif yn defnyddio gwaith plannu rhywogaethau priodol.

### Amcan 7 - Gwarchod a gwella iechyd dŵr daear, cyrff dŵr wyneb ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr

Nod polisïau NWRTP yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwarchod buddion iechyd dŵr a bioamrywiaeth drwy hyrwyddo llwybrau cludiant cyhoeddus a theithio llesol, gan annog symud oddi wrth gerbydau preifat. Mae polisïau megis PF9 yn cefnogi cludo llwythi ar y rheilffyrdd, tra bod DC1-DC3 yn canolbwyntio ar gysylltedd digidol i leihau'r angen i deithio ar gyfer cyflogaeth, a thrwy hynny'n lleihau traffig ar y ffyrdd a'i lygryddion cysylltiedig. Mae ecosystemau dyfrol yn elwa o'r lleihad hwn drwy leihau faint o lygryddion olew, saim ac sydd yn yr awyr sy'n mynd i ddyfrffyrdd. Fodd bynnag, gallai rhai polisïau, megis PF3, sy'n gwella seilwaith HGV, gynyddu traffig, llygredd ac allyriadau carbon HGV mewn ardaloedd penodol megis y llwybrau sy'n darparu mynediad i'r porthladdoedd. Yn ogystal, gallai datblygu canolfannau hydrogen (PF4) ac ehangu porthladdoedd (PF1-PF9) gael effaith negyddol ar adnoddau ac ansawdd dŵr os na chaiff ei reoli'n briodol oherwydd y cyfaint mawr o ddŵr sydd ei angen i gynhyrchu hydrogen.

---

[6] Llywodraeth Cymru, Targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon, 2021. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/climate-change-targets-and-carbon-budgets [Cyrchwyd 02/12/2024]

### Amcan 8 - Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (gan gynnwys dim allyriadau) a gwella gwytnwch y seilwaith trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd

Nod polisïau NWRTP yw creu system drafnidiaeth gynaliadwy sy'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn gwneud y rhwydwaith yn fwy gwydn o ran effeithiau newid hinsawdd megis llifogydd. Drwy annog newid i gludiant cyhoeddus a theithio llesol, ynghyd ag integreiddio cerbydau dim allyriadau i'r fflyd cludiant cyhoeddus, byddai'r polisïau hyn yn lleihau allyriadau carbon. Mae polisïau eraill fyddai'n cyfrannu at ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â datblygu mentrau trafnidiaeth dan arweiniad y gymuned, canolfannau hydrogen, gwella opsiynau cludo llwythi ar y rheilffyrdd, hyrwyddo cerbydau trydan gan gynnwys gwell seilwaith gwefru cerbydau trydan a beiciau e-cargo ar gyfer danfoniadau lleol.

Yn ogystal, mae polisïau cysylltedd digidol yn hyrwyddo gweithio o bell ac yn gwella mynediad i wybodaeth cludiant cyhoeddus, gan leihau'r angen i deithio ac annog newid i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy; dau beth sy'n gymorth i leihau allyriadau.

### Amcan 9 - Gwarchod a gwella ansawdd aer lleol

Nod polisïau NWRTP yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella ansawdd aer drwy hyrwyddo teithio llesol, cludiant cyhoeddus a cherbydau allyriadau isel.

Mae polisïau CB1-CB23, PT1-PT10, AT1-AT6, ac IN1-IN6 yn annog newid o geir preifat i drafnidiaeth gynaliadwy, gan wella ansawdd aer. Mae polisïau PT11-PT13 a DC1-DC3 yn gwella hygyrchedd a chysylltedd, gan gefnogi'r newid hwn i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy ymhellach. Mae polisïau PT2-PT3, AT12-AT14, PF4, a RS7-RS11 yn cefnogi'r trosglwyddiad i gerbydau dim allyriadau, sydd o fudd i ansawdd aer, yn enwedig mewn canolfannau trefol megis Wrecsam a Bangor ond hefyd mewn canolfannau trefol eraill. Mae polisïau porthladdoedd a chludo llwythi (PF1-PF9) yn hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a gorsafoedd rheilffordd, er y gallai mwy o symudiadau HGV a anogir gan welliannau i seilwaith porthladd gael effaith andwyol ar ansawdd aer lleol. Byddai polisïau DC1-DC3 yn cyfrannu at leihad mewn allyriadau drwy hwyluso gweithio o bell a gwella mynediad digidol i wybodaeth cludiant cyhoedd fyddai'n ei gwneud yn haws ac yn fwy cyfleus i bobl ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

### Amcan 11 - Ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol i leihau'r defnydd o ddeunyddiau crai

Nid oes unrhyw bolisi yn y NWRTP sy'n ymgorffori egwyddorion economi gylchol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, er diben yr amcan IWBA hwn, mae tanwydd wedi cael ei ystyried fel deunydd crai. Nod y polisïau a gynigir yn y NWRTP yw gwella opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy a gwella eu hygyrchedd, gan annog newid o ddefnyddio'r car preifat i deithio llesol a chludiant cyhoeddus. Byddai hyn, yn ogystal â pholisïau sy'n lleihau'r angen i deithio (e.e. gwell cysylltedd digidol sy'n galluogi gweithio o bell) yn lleihau'r defnydd o danwydd a byddai'n cael ei wella ymhellach trwy gludiant cyhoeddus ei hun yn defnyddio niferoedd cynyddol o gerbydau allyriadau isel/dim allyriadau.

Byddai hyrwyddo tanwydd glanach megis datblygu canolfannau hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy a Chaergybi hefyd yn cefnogi'r defnydd o ddeunyddiau o ffynonellau lleol. Er y gallai fod angen defnydd materol ar gyfer datblygu seilwaith, nid oes unrhyw wybodaeth benodol ar gael ar hyn o bryd ac felly mae'r effaith yn ansicr ar hyn o bryd.
Gallai twf mewn porthladdoedd gynyddu symudiadau HGV a defnydd o danwydd, ond gallai polisïau sy'n cefnogi tanwydd glanach a seilwaith Cerbydau Trydan helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol cysylltiedig.

### 1.9.3 Sut bydd y NWRTP o fudd i leoedd a'r economi?

Mae Amcanion 5 a 12 IWBA yn asesu effeithiau'r NWRTP ar leoedd a'r economi, gan werthuso sut mae polisïau yn cyfrannu at greu lleoedd, arloesedd a symudiadau cludo llwythi cynaliadwy. Gall mentrau a amlinellwyd yn y polisïau hyn leihau tagfeydd a phwysau parcio a achosir gan dwristiaeth, a thrwy hynny liniaru effeithiau andwyol parcio amhriodol ar fwynderau gweledol yn yr ardaloedd hyn a chynnal cyfanrwydd tirweddau lleol. Mae gwell cysylltedd trafnidiaeth cynaliadwy i ganolfannau economaidd ac atyniadau twristaidd yn annog adfywiad a buddsoddiad mewn ardaloedd mwy difreintiedig a gwledig. Mae mentrau polisi hefyd yn cyfrannu at wella mynediad rhwng Lloegr a Gogledd Cymru a Gogledd a De Cymru ar gyfer cyflogaeth a thwristiaeth a gwella symudiad cludo llwythi, gan gyfrannu at ffyniant economaidd.

#### Amcan 5 - Gwarchod a gwella cymeriad y dirwedd, dynodiadau a mwynderau gweledol yn yr ardal leol

Mae polisïau CB1-CB23 a PT1-PT15 yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol, sy'n cyfrannu at liniaru effeithiau andwyol traffig cynyddol, yn enwedig mewn ardaloedd sensitif megis Parc Cenedlaethol Eryri. Drwy hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy, gall y polisïau hyn helpu i leihau tagfeydd a phwysau parcio a achosir gan dwristiaeth, a thrwy hynny liniaru effeithiau andwyol parcio amhriodol ar fwynderau gweledol yn yr ardaloedd hyn a chynnal cyfanrwydd tirweddau lleol.

Gallai gwelliannau i isadeiledd trafnidiaeth arwain at effeithiau andwyol ar ddynodiadau a thirweddau lle mae angen newidiadau ffisegol (e.e. adeiladu ffordd, ehangu porthladd a seilwaith parcio neu deithio llesol) felly bydd cynllunio a gweithredu gofalus yn hanfodol ar lefel prosiect i sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig yn effeithio ar werth golygfaol a diwylliannol yr ardal.

Tra bod polisïau AT1-AT14 yn cefnogi gwelliannau i seilwaith teithio llesol, gan wneud teithio llesol yn fwy hygyrch, hyd yn oed i dwristiaid, mae'r polisïau yn annhebygol o leihau'r defnydd o gerbydau mewn ardaloedd mwy diarffordd sy'n adnabyddus am eu cymeriad tirwedd arbennig. Mae polisïau IN1 - IN6 yn hyrwyddo'r datblygiad o ganolfannau symudedd ac integreiddio cludiant cyhoeddus yn well, gan hwyluso'r trawsnewidiadau rhwng dulliau trafnidiaeth a chefnogi newid moddol o gerbydau preifat i drafnidiaeth gynaliadwy. Disgwylir i'r newid hwn leddfu effeithiau andwyol tagfeydd traffig a phwysau parcio ar gyrchfannau twristaidd poblogaidd, gan wella mwynderau gweledol.

Gallai ailddyrannu gofod ffyrdd a pharcio ac annog defnydd car un ddeiliadaeth trwy daliadau parcio sy'n cael eu hyrwyddo trwy bolisïau RS5 – RS6, arwain at lai o draffig ar y ffyrdd a phwysau parcio, gan wella mwynderau gweledol trefi a dinasoedd. Byddai hyn yn cael ei wella ymhellach wrth i fannau parcio gael eu hailddyrannu i ddatblygu lleoedd o ansawdd uchel.

#### Amcan 12 - Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symudiad effeithlon a diogel pobl a chludo nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth

Mae polisïau sy'n ymwneud â galluogi newidiadau i ymddygiad teithio (CB1-CB23) yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a llwybrau teithio llesol i safleoedd cyflogaeth mawr (megis Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Stad Ddiwydiannol Wrecsam a Pharc Busnes Caer), addysg a chyrchfannau teithio. Mae hyn yn cefnogi mynediad teg i gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant, gan fod o fudd penodol i gymunedau mewn trefi arfordirol sy'n profi lefelau uwch o amddifadedd cymdeithasol yn ogystal â chymudwyr i barthau buddsoddi.

Mae mentrau trafnidiaeth a arweinir gan y gymuned yn gwella dibyniaeth a gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth, gan gefnogi busnesau a gweithwyr ac annog twristiaeth gynaliadwy. Mae gwell

cysylltedd trafnidiaeth cynaliadwy i ganolfannau economaidd ac atyniadau twristaidd yn annog adfywiad a buddsoddiad mewn ardaloedd mwy difreintiedig a gwledig.

Mae mentrau polisi sy'n gwella cysylltedd trafnidiaeth cynaliadwy hefyd yn cyfrannu at wella mynediad rhwng Lloegr a Gogledd Cymru a Gogledd a De Cymru ar gyfer cyflogaeth a thwristiaeth, gan wella ffyniant economaidd ymhellach.

Mae'r polisïau sy'n ymwneud â bysus, coetsis a chludiant cymunedol (PT1- PT10, IN4) yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau bws, gan hwyluso teithio ar gludiant cyhoeddus rhwng ardaloedd cyflogaeth mawr yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd cyfagos Gogledd Lloegr, yn cynnwys Caer a Glannau Dyfrdwy, a chanolbwyntio ar fannau targed sy'n peri pryder fel croesfannau'r Fenai.

Drwy feithrin cysylltedd rhwng cymunedau a'r canolfannau cyflogaeth hyn, mae'r polisïau yn ceisio darparu mynediad teg i gyfleoedd swyddi, addysg a gwasanaethau hanfodol, sydd o fudd yn benodol i bobl sy'n profi amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac unigolion sy'n dibynnu mwy ar ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae polisïau yn cynnwys mentrau i ddylunio llwybrau a gwasanaethau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid, sy'n gwella cysylltedd a mynediad i gyfleoedd a gwasanaethau.

Mae polisïau PT11- PT15 yn canolbwyntio ar ddatrysiadau trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw sy'n gwella diogelwch, hygyrchedd a hyblygrwydd. Mae'r polisïau yn cefnogi'r economi leol drwy wella mynediad i weithleoedd i bobl heb fynediad i gar preifat ac yn ehangu daearyddiaeth twristiaeth sy'n hygyrch ar gludiant cyhoeddus. Gall hyn annog adfywiad a buddsoddiad ymhellach mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae integreiddio cerbydau allyriadau isel yn cryfhau gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth sy'n lliniaru risgiau o amhariadau tanwydd ffosil.

Mae polisïau sy'n cefnogi gwelliannau i seilwaith teithio llesol (AT1-AT14, IN1-IN2) yn debygol o annog teithio mwy cynaliadwy (gan gynnwys mwy o ddefnydd trafnidiaeth gyhoeddus) i gael mynediad at gyfleoedd addysgol, hyfforddiant a chyflogaeth sydd o fudd i ffyniant economaidd hirdymor y rhanbarth. Mae AT12 - AT14 yn cefnogi llogi beiciau/e-feiciau sy'n cynhyrchu incwm ar gyfer y busnesau hyn ac yn hwyluso teithio llesol i ac o ganol dinasoedd ymhlith twristiaid, gan gefnogi economïau lleol.

Mae polisïau IN5-IN6 yn ymwneud â gwelliannau i gynlluniau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu, a fyddai'n cyfrannu at lai o dagfeydd mewn canolfannau trefol. Er bod tagfeydd is yn lleihau amser teithio (ac felly'n rhyddhau amser ar gyfer gwaith neu hyfforddiant mwy cynhyrchiol) a gall annog busnesau i leoli mewn ardal (oherwydd mwynderau lleol gwell), gall gael effaith cwbl groes os oes angen cymorthdaliadau gan yr economi leol, a bydd felly'n rhwystro twf economaidd[7]. Fodd bynnag, dangoswyd hefyd bod prosiectau Parcio a Theithio yn fwyaf llwyddiannus pan fyddant yn benodol ar gyfer darparu mwy o barcio am resymau twf economaidd neu reoli traffig, yn hytrach na gwella symudedd cynaliadwy[8]. Felly, byddai deilliannau economaidd yn dibynnu ar leoliad a bwriad y cyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu.

Mae polisïau PF1-PF2 yn cefnogi twf datblygiadau porthladd sy'n darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth ac yn cyfrannu at dwf economaidd. Byddai hyn yn annog adfywiad a buddsoddiad mewn ardaloedd o gwmpas porthladdoedd Caergybi, Ynys Môn a Mostyn, a fyddai o fudd i gymunedau mwy difreintiedig yn yr ardaloedd. Mae'r polisïau hefyd yn canolbwyntio ar gludo llwythi a gwella cysyllted tu hwnt i'r porthladdoedd, sy'n hybu datblygiad economaidd ymhellach. Drwy gefnogi datblygiad canolfannau hydrogen, mae PF4 yn cyfrannu at fwy o gyfleoedd cyflogaeth yng Ngogledd

---

7 Asesiad egwyddorion cyntaf Parcio a Theithio, Prifysgol Leeds

8 Parkhurst, G. a Meek, S. (2014). Effeithiolrwydd parcio a theithio fel mesur polisi ar gyfer symudedd mwy cynaliadwy. Pennod 9 yn Ison, S. a Mulley, C. (Eds) Parking Issues and Policies. Emerald, 185-211.

Cymru. Ymhellach, gallai cyflwyno canolfannau cyfuno cludo llwythi drwy PF6 - PF7 greu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Byddai newid i gludo llwythi ar y rheilffyrdd (PF9) yn gwella dibyniaeth a gwytnwch y rhwydwaith trafnidiaeth (drwy wella dibynadwyedd, capasiti ac amlder cludo llwythi ar y rheilffyrdd, a hefyd leihau tagfeydd ar y ffyrdd) gan gefnogi busnesau a gweithwyr yn well ac annog buddsoddiad yn y rhanbarth.

Mae polisïau RS1- RS11 sy'n ymwneud â ffyrdd, strydoedd a pharcio yn hyrwyddo cysylltiadau trafnidiaeth diogel, gwydn o ran yr hinsawdd a dibynadwy i wella mynediad at gyflogaeth, addysg a thwristiaeth. Gallai seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy fel cynlluniau Parcio a Theithio, Parcio a Rhannu a seilwaith gwefru Cerbydau Trydan, wella amodau ffyrdd a theithio, gan gynnig costau teithio is ac opsiynau trafnidiaeth i'r rhai heb geir, annog twristiaeth a chefnogi'r economïau lleol. Byddai gwell cysylltedd rhanbarthol a thraws-gwlad hefyd yn annog adfywio a buddsoddi, yn enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau priffyrdd.

Gallai gwella mynediad cludiant cyhoeddus i feysydd awyr (AV1) hwyluso cyfleoedd busnes rhyngwladol. Bydd gwell cysylltedd digidol (DC1- DC3) yn cefnogi cyfleoedd gweithio o bell, gan hwyluso gweithgarwch economaidd drwy annog ychwanegiadau i'r marchnadoedd swyddi drwy gynnig amserlenni gweithio hyblyg a lleihad yn yr angen i deithio. Mae hefyd yn helpu i wella dibyniaeth ar y rhwydwaith trafnidiaeth, cefnogi gwell cynllunio teithiau trwy drafnidiaeth gynaliadwy, cefnogi gweithwyr sy'n cymudo ac annog twristiaeth gynaliadwy.

### 1.9.4 Sut y bydd NWRTP o fudd i ddiwylliant a'r Gymraeg?

Mae Amcan 6 IWBA yn asesu effeithiau'r NWRTP ar ddiwylliant a'r iaith Gymraeg, sy'n cynnwys y celfyddydau, chwaraeon, a'r amgylchedd hanesyddol. Mae mentrau polisïau o'r NWRTP yn cyd-fynd â Cymraeg 2050[9] drwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cyhoeddus megis gwasanaethau trafnidiaeth, cyfnewidfeydd a gwybodaeth ddigidol.

Yn ogystal, maent yn cefnogi nodau Cynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol 2040[10], drwy gryfhau'r berthynas rhwng trafnidiaeth, twf economaidd a'r iaith Gymraeg.

Mae'r NWRTP yn cynnwys cyfleoedd i wella mynediad cynaliadwy i atyniadau treftadaeth yng Ngogledd Cymru, yn unol â Chroeso i Gymru - Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymweld 2020-2025[11].

#### Amcan 6 - Gwarchod a gwella'r dreftadaeth ddiwylliannol leol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg

Byddai polisïau'r NWRTP sydd â'r nod o wella gwasanaethau cludiant cyhoeddus a seilwaith teithio llesol (CB1- CB23; PT1 - PT15; AT1 -AT14; IN1 - IN6), yn hwyluso gwell cysylltedd rhwng cymunedau a safleoedd diwylliannol allweddol, yn ogystal â chyfleusterau addysgol cyfrwng Cymraeg. Drwy leihau tagfeydd traffig a gwella hygyrchedd, mae'r mentrau hyn yn ei gwneud hi'n haws i unigolion, yn enwedig y rhai heb gerbydau preifat, ymweld â lleoliadau diwylliannol, safleoedd treftadaeth, a gwella cysylltedd rhwng cymdogaethau Cymraeg lleol. Mae mwy o ymwelwyr i'r atyniadau diwylliannol yn cefnogi eu hyfywedd economaidd.

---

[9] Llywodraeth Cymru, 2024. Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth yr iaith Gymraeg 2024 i 2025. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/cymraeg-2050-welsh-language-strategy-action-plan-2024-2025-html [Cyrchwyd 13/11/24]

[10] Llywodraeth Cymru (2021), Cymru'r Dyfodol: Cynllun Datblygu Cenedlaethol 2040. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/future-wales-national-plan-2040-0 [Cyrchwyd 03/12/2024]

[11] Llywodraeth Cymru (2020), Croeso i Gymru - Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymweld 2020-2025. Ar gael ar-lein yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/welcome-to-wales-priorities-for-the-visitor-economy-2020-2025.pdf [Cyrchwyd 03/12/2024]

Mae gwell cysylltedd rhwng cymunedau Cymraeg eu hiaith ac adnoddau addysgol ar gyfer dysgu'r Gymraeg, yn hanfodol er mwyn hyrwyddo'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Mae'r polisïau yn cefnogi mentrau sy'n creu cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned a gwella mynediad at gyfleoedd cymdeithasol i gymunedau Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n cynnwys y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Byddai'r polisïau hefyd yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn mannau cymdeithasol a chymunedol fel cyfnewidfeydd trafnidiaeth, mannau aros bysiau, safleoedd bws a bysiau eu hunain mewn fformatau llafar ac ysgrifenedig.[9]**Error! Bookmark not defined.**

Yn gyffredinol, mae polisïau'r NWRTP ar y cyd yn cyfrannu at gadwraeth a hybu treftadaeth ddiwylliannol leol heb achosi risgiau i asedau treftadaeth dynodedig.

## 1.10 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Pum Ffordd o Weithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi'r pum ffordd o weithio – Meddwl am yr hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithredu a Chyfranogiad. Rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos ystyriaeth o'r egwyddorion hyn wrth wneud penderfyniadau i ddangos eu bod yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir fel 'gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi ystyried y ffyrdd hyn o weithio yn y ffyrdd a ganlyn:

**Meddwl am yr hirdymor:** Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cwmpasu'r cyfnod 2025-2030. Mae'n ystyried aliniad â chynlluniau strategol a chenedlaethol eraill, gan gynnwys Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (hyd at 2041), y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol (hyd at 2027), Cymru'r Dyfodol (hyd at 2040) a'r Cynlluniau Datblygu Strategol newydd (cynllun 25 mlynedd). Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ymdrin â materion, anghenion a chyfleoedd allweddol hyd at 2030/31, yn ogystal â chynlluniau uchelgeisiol a allai symud ymlaen y tu hwnt i 5 mlynedd. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd osgoi datrysiad tymor byr trwy ystyried lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r cynllun yn cydbwyso anghenion uniongyrchol gyda'r angen i ddiogelu buddiannau hirdymor. Mae'r IWBA hefyd yn ystyried materion a chyfleoedd presennol ac yn y dyfodol, gan ystyried effaith polisïau a chynlluniau ar les yn y tymor hir.

**Atal:** Mae'r Achos dros Newid yn amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r materion allweddol yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Trwy weithredu'n gynnar ac ar y cyd, nod y polisïau a'r ymyraethau arfaethedig yw ymdrin ag achosion sylfaenol cyn iddynt waethygu, gan arwain at well canlyniadau i unigolion, cyrff cyhoeddus a chymdeithas. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, gan gyfrannu at amcanion lles Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Mae'r IWBA hefyd yn nodi effeithiau posibl ar les sy'n gysylltiedig â gwahanol bolisïau ac yn darparu argymhellion i liniaru'r effeithiau hyn ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer manteision cadarnhaol.

**Integreiddiad:** Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn integreiddio strategaethau ar draws defnydd tir, trafnidiaeth a datblygu economaidd, gan sicrhau dull cydlynol o integreiddio dulliau trafnidiaeth. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi ei aliniad â chynlluniau strategol a chenedlaethol eraill fel y disgrifir uchod, sy'n helpu i integreiddio cynlluniau a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol (yn ogystal â lleol). Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd yn ystyried cysylltedd trawsffiniol ac yn helpu i ymdrin â datblygu economaidd, cynllunio defnydd tir a

chynllunio trafnidiaeth mewn ffordd gyfunol a chyfannol ar draws rhanbarthau. Mae'r IWBA yn mabwysiadu fframwaith cynhwysfawr sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Llywodraeth Cymru, gan ystyried pob agwedd ar les mewn modd integredig, gan gwmpasu pobl, lleoedd a'r amgylchedd.

**Cyfranogiad:** Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac IWBA yn pwysleisio pwysigrwydd cynnwys ystod amrywiol o randdeiliaid i lunio penderfyniadau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Trwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol, defnyddwyr a gweithredwyr trafnidiaeth, a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, rydym yn sicrhau bod ein cynlluniau yn adlewyrchu anghenion a dyheadau'r gymuned. Mae'r dull cydweithredol hwn, sy'n cael ei arwain gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn ein helpu i adeiladu ar ymdrechion blaenorol a chreu system drafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer Gogledd Cymru. Mae rhagor o fanylion am y dull hwn ar gael yn adran ymgysylltu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**Cydweithredu:** Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cydweithio'n agos â Cyd-bwyllgorau Corfforedig eraill, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli'r economi, cymdeithas, diwylliant a'r amgylchedd ledled y rhanbarth, gan ymgorffori adborth gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ac ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae'r IWBA hefyd yn hyrwyddo cydweithrediad rhagweithiol â chymunedau lleol wrth weithredu polisïau a chynlluniau. Mae'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod y defnydd gorau posibl o adnoddau ac arbenigedd yn cael ei wneud i gyflawni amcanion llesiant yr holl bartïon dan sylw.

## 1.11 Argymhellion

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r IWBA, nodwyd cyfres o argymhellion yn Nhabl 4, a fyddai'n helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl.

Tabl 4 Argymhellion lliniaru ar gyfer polisïau a allai gael effeithiau negyddol

| Polisïau | Argymhellion |
|---|---|
| Amcan 1: Cefnogi'r gwaith o ddarparu tai a gwasanaethau lleol i ddiwallu anghenion cymunedau lleol | |
| Rhyngweithiad rhwng dulliau (IN1 – IN3) | Yn ystod cam gweithredu'r polisïau, bydd yn hanfodol sicrhau eu bod yn diwallu gwir anghenion y cymunedau. Byddai ymgynghori â'r gymuned ac ymgysylltu gyda sefydliadau lleol a chymunedol yn hwyluso gwell dealltwriaeth o beth yw'r anghenion hynny fel y gellir eu diwallu.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Amcan 2: Lleihau anghydraddoldeb a hyrwyddo cydlyniant cymunedol | |
| Bws (PT1) | Dylid defnyddio ymgysylltu cymunedol i lunio llwybrau ac amserlenni. Byddai hyn yn cynyddu'r synnwyr o gydlyniant cymunedol ac yn creu rhwydwaith sy'n diwallu anghenion lleol.<br><br>Dylid ymgorffori hygyrchedd i ddyluniad gwasanaethau, seilwaith a cherbydau newydd (lefel prosiect). Byddai hyn yn cefnogi mynediad teg at gludiant cyhoeddus a theithio llesol, tra hefyd yn annog mwy o bobl i newid i'r dulliau hyn.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |

| Polisïau | Argymhellion |
|---|---|
| Cerdded, olwyno a beicio (AT4 -AT6) | Byddai ymgysylltu â rhan-ddeiliaid cymunedol, yn enwedig y rhai sy'n cynrychioli Nodweddion Gwarchodedig/Grwpiau Bregus, yn sicrhau bod pryderon hygyrchedd, syniadau a phrofiadau bywyd yn cael eu hymgorffori yn y dyluniadau.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Rhyngweithiad rhwng dulliau (IN5-IN6) | Pan fydd polisïau yn ymwneud â chyfleusterau Parcio a Theithio a Pharcio a Rhannu yn cael eu gweithredu, dylid cynnal adolygiad i sicrhau nad yw buddsoddiad yn y cyfleusterau hyn ar draul buddsoddiad mewn cludiant cyhoeddus confensiynol ac nad ydynt o fudd i fodurwyr yn unig (h.y. dylai unigolion nad ydynt yn fodurwyr allu dal i elwa o unrhyw wasanaeth hefyd).<br><br>Mae ymgynghoriad â rhanddeiliaid yn argymell edrych ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sydd ag is-grŵp sy'n treialu gwahanol ddulliau yn Niwbwrch lle bydd dysgu defnyddiol ar gael i ardaloedd a chymunedau eraill. Maent yn eirioli i hyn fod yn ddull drwy Ynys Môn i gyd sy'n cynnwys gwell teithio llesol lle mae'r dewis amgen hwnnw ar gael.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio (RS5 - RS6) | Mae'n bwysig bod ailddyrannu ffyrdd a mannau parcio yn cael ei weithredu ynghyd â mentrau i ddarparu gwell isadeiledd cludiant cyhoeddus neu bwlio ceir i atal unrhyw effeithiau andwyol anfwriadol ar hygyrchedd i wasanaethau hanfodol megis gofal iechyd, hamdden a gofodau gwyrdd.<br><br>Dylid hefyd cynnwys adolygiad o ofynion parcio anabl yn y lleoliadau hyn gydag unrhyw ail-ddyraniad.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Cysylltedd Digidol (DC1 - DC3) | Dylai hyfforddiant ac addysg ddigidol a gyflawnir gan DC2 ymgorffori gwahanol anghenion dysgu pobl gydag anableddau corfforol neu feddyliol er mwyn goresgyn rhwystrau i gynhwysiad digidol.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio (RS3 - RS4) | Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i ddefnydd posib lonydd beicio a llwybrau cerddwyr ar wahân a fyddai'n gwneud teithio llesol yn ddull mwy deniadol o deithio i bobl ac yn cynyddu diogelwch.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Amcan 4: Cadw, gwarchod a gwella buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd pwysig. | |
| Bws (PT4 - PT5) | Ar lefel prosiect, mae angen ystyried safleoedd gwarchodedig/ardaloedd o gynefinoedd naturiol lle mae datblygiadau isadeiledd angen tir. Dylid ymgorffori mesurau lliniaru drwy arolygu a dylunio priodol yn y cam hwnnw.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |

| Polisïau | Argymhellion |
|---|---|
| Porthladdoedd a Chludo Nwyddau (PF1 - PF2) | Dylai mesurau lliniaru fod yn eu lle i warchod buddiannau bioamrywiaeth a daearamrywiaeth. Rhaid dilyn Adroddiad Sgrinio ac argymhellion y HRA.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Porthladdoedd a Chludo Nwyddau (PF3) | Rhaid osgoi cynefinoedd gwarchodedig os oes angen ardaloedd newydd o dir. Rhaid dilyn Adroddiad Sgrinio ac argymhellion y HRA.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Amcan 8: Cefnogi trosglwyddiad tuag at sector trafnidiaeth gydag allyriadau carbon is (gan gynnwys dim allyriadau) a gwella gwytnwch y seilwaith trafnidiaeth i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd. | |
| Trafnidiaeth coetsis, trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw a thrafnidiaeth gymunedol (PT14) | Gallai'r defnydd o gerbydau dim allyriadau ar gyfer gwasanaethau coets sy'n teithio ymhellach gyfrannu at ddatgarboneiddio i'r sector trafnidiaeth. Dylid annog hyn.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Amcan 7: Gwarchod a gwella iechyd dŵr daear, cyrff dŵr wyneb ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. | |
| Porthladdoedd a Chludo Nwyddau (PF3) | Dylid gosod draeniad priodol mewn unrhyw gyfleusterau newydd fyddai'n profi dwysâd o ddefnydd gan HGVs.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio (RS3 - RS4) | Dylid ymgorffori mesurau lliniaru llifogydd mewn cynnal a chadw priffyrdd.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol dan oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Amcan 10: Lleihau aflonyddwch o sŵn a dirgryniad sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth | |
| Porthladdoedd a Chludo Nwyddau (PF3) | Dylai unrhyw wasanaethau (a'u mynediad) newydd ar gyfer parcio HGV gael eu lleoli oddi wrth ardaloedd preswyl a chynefinoedd gwarchodedig.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan ddylunwyr a chynllunwyr y cynllun, dan oruchwyliaeth perchennog y cynllun, sy'n debygol o fod yn awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |
| Amcan 12: Creu system drafnidiaeth integredig sy'n hwyluso symudiad effeithlon a diogel pobl a chludo nwyddau, gan gyfrannu at fwy o ffyniant economaidd yn y rhanbarth. | |

| Polisïau | Argymhellion |
|---|---|
| Bws (PT6 -PT7) | Yr A55, "Ffordd Gyflym Gogledd Cymru", yw'r ffordd brysuraf yng Ngogledd Cymru, ffordd ddeuol sy'n cysylltu Caer i Gaergybi yn bennaf, ar hyd arfordir Gogledd Cymru ac sy'n mynd heibio Cyffordd Llandudno, Conwy a Bangor. Dyma un o ffyrdd pwysicaf Cymru sy'n rhedeg drwodd i borthladd Caergybi. Mae croesi'r Fenai i Ynys Môn yn bwysig yn lleol ac yn strategol, er eu bod wedi'u gwahanu gan y Fenai ac mewn ardaloedd awdurdod lleol gwahanol, mae'r trefi ar ddwy ochr y Fenai yn ffurfio ardal economaidd sengl. Gallai canolbwyntio ar y llwybrau hyn wrth wella'r rhwydwaith bysiau, polisi PT6, wella'r cyfraniad at fwy o ffyniant economaidd. |
| Rhyngweithiad rhwng dulliau (IN1 – IN3) | Dylai gwasanaethau trafnidiaeth gynnwys cymaint o integreiddiad â phosib, gan ystyried anghenion lleol ac anghenion gwahanol yr amrywiaeth o grwpiau mewn cymunedau. Er enghraifft, mae anghenion trafnidiaeth person sy'n mynd i weithio (yn teithio o A i B) yn debygol o fod yn wahanol i riant sy'n gwneud sawl taith yn ystod eu diwrnod (yn teithio A-B-D-C-A). Dylid ystyried anghenion pob defnyddiwr.<br><br>Dylai hyn gael ei arwain gan awdurdodau lleol mewn partneriaeth â gweithredwyr a than oruchwyliaeth Uchelgais Gogledd Cymru. |

## 1.12 Monitro a gwerthuso

Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi cael ei baratoi ar gyfer y NWRTP ac mae'n cynnwys cyfres o fesurau yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol Cymru, sydd wedi'u haddasu ar gyfer amcanion SMART ac IWBA y NWRTP. Mae pob mesur yn gosod targedau ar gyfer gwelliannau dros gyfnod y Cynllun hyd at 2030. Mae'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn amlinellu sut fydd llwyddiant y NWRTP yn cael ei fesur, gan ganolbwyntio ar amcanion trafnidiaeth a deilliannau lles cysylltiedig, ac yn amlygu cyfraniad y rhanbarth i'r targedau datgarboneiddio a newid moddol cenedlaethol.